CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 17 MAWRTH 2005 YN NHŶ CARADOG, PLAS SANT ANDREW, CAERDYDD

Y Comisiynwyr	Yr Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. D Carr

1. DATGANIAD O DDIDDORDEBAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordebau newydd. Llongyfarchwyd y Dirprwy Gadeirydd gan y Comisiwn ar ei ailbenodiad fel cyfarwyddwr anweithredol Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 24 CHWEFROR 2005

2.1 Cytunwyd ar y rhain yn amodol ar fân ddiwygiadau.

3. MATERION SY'N CODI

3.1 Materion Merlin

3.1.1 **Adroddwyd** nad oedd y mater o gysylltedd wedi'i ddatrys. Roedd Merlin wedi arolygu cysylltiad y Comisiwn ac wedi nodi bod arnynt angen caniatâd y landlord i wneud y gwaith angenrheidiol ar gyfer yr uwchraddio.

3.1.2. **Adroddwyd** y rhoddwyd gwybod i NAO bod y Comisiwn bellach wedi cael caniatâd y Cynulliad i ddileu'r taliadau a godwyd gan Siemens y bu anghydfod yn eu cylch o ran prydlesu offer TG ar gyfer 2003/04. Disgwylid y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu Llythyr Rheolaeth ar gyfer archwiliad 2004/05.

3.2 Adolygiad Cymunedol Bracla

3.2.1 **Adroddwyd** bod yr Adroddiad Cynigion Drafft wedi'i gyfieithu a'i wirio. Fodd bynnag, nid oedd disgwyl y byddai'n bosibl cyhoeddi'r adroddiad cyn diwedd mis Mawrth o ganlyniad i wyliau'r Pasg. **Cytunwyd** y dylid argraffu a chyhoeddi'r adroddiad cyn gynted ag sy'n bosibl.

3.3 Cynghorwyr Cymunedol

3.3.1 **Adroddwyd** bod yr Ysgrifennydd wedi codi'r mater o adolygu cyngor 1976 ar gymarebau gynghorwyr cymunedol / etholwyr gydag Adran LGM2. **Nodwyd** nad oedd adroddiad Aberystwyth yn cyfeirio o gwbl at gymhareb yr etholwyr i gynghorwyr cymunedol yng Nghymru. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn codi'r mater yn eu cyfarfod â'u hadran nawdd.

4. ADOLYGIAD O'R FFIN RHWNG SIR BENFRO A CHEREDIGION YN ARDAL CILGERRAN

4.1 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychioliadau a gafwyd mewn ymateb i'r cynigion drafft. **Nodwyd** bod Cyngor Cymuned Cilgerran wedi cytuno'n anfodlon â chynnig y Comisiwn na fyddai'r ffin bresennol yn newid, a bod yr holl gynrychioliadau eraill, ac eithrio un, wedi cefnogi peidio â'i newid. **Cytunwyd** y dylai'r Cynigion Terfynol gadarnhau penderfyniad y Comisiwn y dylid cadw'r ffin bresennol, ac y dylid cyflwyno drafft o adroddiad y Cynigion Terfynol i'r cyfarfod ym mis Ebrill.

5. CYFARWYDDIADAU I ADOLYGU'R FFIN RHWNG CYMUNEDAU BLAENHONDDAN A DYFFRYN CLYDACH - AMSERLEN

5.1 Ystyriodd y Comisiwn yr amserlen arfaethedig ar gyfer yr adolygiad. Ystyriwyd y byddai'n bosibl i'r adolygiad ddechrau fis yn gynt na'r dyddiad a gynigwyd ym mis Mehefin 2005. **Cytunwyd** y byddai'r adolygiad yn dechrau ym mis Mai 2005.

6. CYFARFOD AGORED BLYNYDDOL

6.1 Ystyriodd y Comisiwn y papur sy'n rhoi'r dewis o leoliadau yn Aberystwyth a Machynlleth. Ymddengys mai'r dewisiadau gorau oedd Celtica ym Machynlleth neu Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. **Cytunwyd** mai Llyfrgell Genedlaethol Cymru fyddai'r lleoliad mwyaf addas am y gwyddys bod ganddi gyfleusterau parcio da. Ystyriodd y Comisiwn y byddai'n ddymunol darparu bwffe ar gyfer y cynrychiolwyr, am y byddai'n rhoi'r cyfle iddynt rannu syniadau yn ystod y toriad am ginio. **Cytunwyd** y dylid, dros dro, archebu bwffe ar gyfer 30 o bobl, ac y gallai'r nifer hon gael ei hadolygu yn nes at y CAB.

6.2 Byddai angen llogi ystafell ar gyfer cynnal cyfarfod y Comisiwn y noson cyn y CAB. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

6.3 Pennwyd dyddiad dros dro ar gyfer y CAB, o ddydd Mawrth 11 Hydref 2005.

7. AILWAMPIO – ADRODDIAD LLAFAR

7.1 **Adroddodd** Mr Lewis bod yr amserlen ar gyfer ailwampio wedi'i newid yn sylweddol yn sgil gohebiaeth ddiweddar oddi wrth Adran LGM.

8. UNRHYW FUSNES ARALL

8.1 Selio Dogfennau

8.1.1 **Adroddodd** Mr Lewis y ceisiwyd cyngor oddi wrth gynghorwyr cyfreithiol y Comisiwn o ran defnydd sêl y Comisiwn ar ddogfennau ac adroddiadau swyddogol. Y cyngor a gafwyd oedd nad oedd angen sêl, a'r unig ofyniad statudol ar gyfer cyflwyniadau a wneir i'r Cynulliad Cenedlaethol yw bod Aelodau yn eu llofnodi. Nododd y Comisiwn y cyngor hwn.

8.2 Gwefan

8.2.1 **Adroddwyd** bod Steve Halsall yn ddiweddar wedi mynychu seminar a drefnwyd gan y Cynulliad ar ddylunio gwefannau. Un o'r materion a godwyd yn y seminar oedd cydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth ar hygyrchedd y wefan. Mae gwefan y Comisiwn bellach yn cael ei hail-ddylunio i gydymffurfio â'r canllawiau ond byddai hyn yn cynnwys gwaith sylweddol, gan gymryd 3 mis, o bosibl, i'w gwblhau. Byddai gwefan bresennol y Comisiwn yn parhau i redeg o hyd wrth i'r gwaith hwn gael ei wneud. Nododd y Comisiwn y datblygiad hwn.

8.2.2 **Adroddwyd** bod Archwiliad Mewnol wedi nodi bod gwefan y Comisiwn ond yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd y Comisiwn hyd at fis Ionawr 2004. Eglurodd Mr Halsall bod cofnodion cyfarfodydd dilynol wedi'u cofnodi ar y wefan, ond iddynt gael eu colli pan dorrodd gweinyddwr y Cynulliad i lawr, a'u bod wedi'u hadfer i gyflwr llawer cynt. Yn ogystal â hyn, ceir anawsterau technegol presennol sy'n atal y wefan rhag cael ei diweddaru. Nododd y Comisiwn y mater hwn.

8.3 Cyfrifon Blynyddol

8.3.1 Sylwodd yr Ysgrifennydd bod CCNCau eraill yn cyhoeddi crynodeb o'u cyfrifon yn unig ac yn darparu set gyflawn o gyfrifon ar gais. Bu'n arfer gan y Comisiwn erioed i gyhoeddi cyfrifon llawn yn eu hadroddiad blynyddol ac ar eu gwefan. Fodd bynnag, efallai y bydd modd lleihau'r gost o gynhyrchu'r adroddiad blynyddol drwy fabwysiadu'r arfer o gynnwys crynodeb yn hytrach na chyfrifon llawn. Nodwyd y byddai'n rhaid cyflwyno set gyflawn o gyfrifon at ddibenion archwilio o hyd. Ystyriodd y Comisiwn y byddai'n ddefnyddiol gwirio gofynion y Memorandwm Ariannol a chanfod a fyddai gan yr adran nawdd unrhyw wrthwynebiadau.

8.4 Cyfrifo Adnodd

8.4.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod ef a'r Swyddog Ariannu wedi cyfarfod â Mr Laurie Pavelin, Pennaeth Atebolrwydd Ariannol, i drafod y cynnig gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol bod y Comisiwn yn ystyried mabwysiadu cyfrifo yn seiliedig ar adnoddau. Roedd Mr Pavelin wedi casglu bod y Comisiwn yn gorff rhy fach i gyfiawnhau cyflwyno cyfrifon llawn yn seiliedig ar adnoddau, ond y gallai fod yn ddefnyddiol i fabwysiadu ymagwedd symlach. Byddai ei staff yn rhoi cymorth i gyflawni hyn. Cododd Mr Pavelin hefyd y mater o ffioedd archwilio'r Comisiwn. Cytunwyd y dylid codi'r mater o ffioedd archwilio mewnol ac allanol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio ac y byddai'r Ysgrifennydd yn ysgrifennu at yr adran nawdd.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

9.1 Pennwyd y dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd nesaf ar 20 Ebrill 2005 ac 16 Mai 2005.